Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

Ann Cooper

Caerdydd

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cyhoeddi

Dydd Mawrth, 23 Hydref 2018

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae'r gwarchodwr plant wedi'i chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gofal ar gyfer 10 o blant hyd at 12 oed yn ei chartref yng Nghaerdydd, lle mae'n byw gyda'i theulu a'i chwningen. Darperir gofal rhwng 08:00am a 18:00pm o ddydd Llun i ddydd Iau. Mae hwn yn wasanaeth dwyieithog.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn cael profiadau cadarnhaol o ran eu llesiant. Mae'r gofal yn ymatebol ac mae'r plant yn hapus ac mae eu hanghenion wrth wraidd y gwasanaeth. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ac mae'n ymwybodol o anghenion y plant yn ei gofal. Mae'r plant yn cael budd o amgylchedd trefnus sy'n eu hannog i wneud penderfyniadau annibynnol ac yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad. Mae digon o adnoddau ac maent o ansawdd da. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn effeithiol, ac mae systemau trefnus ar waith.

2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf mae'r gwarchodwr plant wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant gloywi er mwyn ategu ei hymarfer.

3. Gofynion ac argymhellion

Ni wnaethom nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. Gwnaethom rai argymhellion arfer da a grynhoir ar ddiwedd yr adroddiad.

1. Llesiant

Crynodeb

Mae'r plant yn derbyn gwasanaeth llawn gofal sy'n rhoi sylfaen addas iddynt ar gyfer eu dysgu a'u datblygiad. Maent yn hapus ac wedi setlo ac wedi meithrin cydberthynas agos â'r gwarchodwr plant.

Ein canfyddiadau

1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Caiff y plant gyfleoedd i wneud dewisiadau drostynt eu hunain. Darparodd y gofalwr plant ddewis o eitemau chwarae fel y gallai'r plant gael gafael arnynt yn hawdd. Gwnaethant ddewis yr eitemau a oedd o ddiddordeb iddynt yn ddirwystr o fannau storio lefel isel. Roedd y gwarchodwr plant yn gwrando'n astud ar y plant a rhoddwyd amser iddynt ymateb ar lafar neu fel arall. Clywsom y plant yn dweud wrth y gwarchodwr plant pan oedd eisiau bwyd arnynt, a pha deganau roeddent am chwarae â nhw.

Caiff hawl y plant i fynegi eu hunain yn ddirwystr ac i wneud dewisiadau annibynnol eu hannog a'u parchu gan y gwarchodwr plant.

1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn gyfarwydd â threfn y gwasanaeth sy'n rhoi ymdeimlad o sicrwydd a pherthyn iddynt. Mae'r plant wedi datblygu cydberthynas agos amlwg gyda'r gwarchodwr plant. Maent yn gyfforddus ac wedi setlo ac yn gartrefol, ac yn mynd ati pan fydd angen help neu gymorth arnynt. Gwelsom fod y plant yn hapus ac wedi setlo drwy gydol yr ymweliad. Roedd y gwarchodwr plant yn annog y plant, ac yn eu canmol am eu cyflawniadau. Roedd yn hyrwyddo hunan-barch y plant yn frwd ac yn cydnabod pryd yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt, er enghraifft yn agor eu bocsys bwyd.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn y gwasanaeth hwn, sy'n eu gwerthfawrogi a'u hybu fel unigolion.

1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n addas yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Roedd y plant iau yn dechrau deall eu teimladau a sut y mae eu hymddygiad yn effeithio ar unigolion eraill. Gwelsom y plant yn chwarae gyda'i gilydd, gan gymryd eu tro a dangos diddordeb a pharch at ei gilydd. Mae gweithgareddau yn cynnal eu diddordebau am ddigon o amser ac maent wedi datblygu sgiliau cymdeithasol da a chwrteisi cadarnhaol. Gwnaethom nodi awyrgylch hamddenol a oedd yn canolbwyntio ar y plentyn. Clywsom y gwarchodwr plant yn canmol y plant pan fyddant yn llwyddo mewn gweithgareddau a gwnaethom nodi fod y plant yn ceisio ei chymeradwyaeth ac yn ei gwerthfawrogi.

Mae'r plant yn cael cymorth priodol i ddatblygu gwydnwch emosiynol.

1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn dangos pleser a mwynhad gwirioneddol yn y gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt. Mae ganddynt ddiddordeb ac maent yn chwilfrydig i ddysgu ac yn treulio cyfnod priodol o amser yn cyflawni gweithgareddau o'u dewis, sy'n bennaf yn ddistrwythur ac yn cael eu dewis yn ddirwystr. Gwelsom fod y plant yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored yn y tŷ bach twt. Roedd y plant llwyr ymroi i chwarae ac nid oeddent yn ymddangos fel petaent wedi'u diflasu neu'n colli diddordeb, gan fod adnoddau ar gael a gellir cael gafael arnynt yn hawdd. Roedd hyn yn golygu y gallant symud o un anodd i'r llall a mwynhau gweithgareddau gwahanol pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Gwelsom fod y plant yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored yn yr ardd. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod hefyd yn mynd â'r plant allan i'r gymuned leol, ac mae'r plant yn mwynhau hynny.

Mae'r plant yn cael hwyl ac yn mwynhau chwarae yng ngofal y gwarchodwr plant.

1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu mewn amgylchedd gweithgar. Maent yn datblygu annibyniaeth drwy gael eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain a chael amser i gyflawni'r gweithgaredd o'u dewis er mwyn dysgu sut mae pethau'n gweithio. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn annog y plant i olchi eu dwylo a defnyddio'r toiled yn annibynnol neu'n eu hannog a'u helpu pan fyddant yn barod. Roedd ein harsylwadau o'r plant yn dangos eu bod yn dysgu ac yn datblygu o'r gweithgareddau a oedd ar gael iddynt.

Mae'r plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dechrau dod yn annibynnol drwy gael cyfleusterau, adnoddau a chymorth priodol.

2. Gofal a Datblygiad

Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i rôl a'i chyfrifoldebau o ran anghenion unigol y plant ac mae'n rheoli rhyngweithio yn dda. Mae systemau ar waith i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Ein canfyddiadau

2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn ddiogel yn ei gofal. Gwelsom ei bod yn meddu ar hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig cyfredol, polisi meddyginiaeth, cofnodion meddyginiaeth a blwch cymorth cyntaf ar gyfer argyfyngau. Mae polisi Diogelu sy'n cynnwys y ddyletswydd Atal, sef strategaeth sy'n rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr i atal plant rhag cael eu radicaleiddio. Caiff damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes eu cofnodi.

Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn ymwybodol o ofynion dietegol unigol y plant, gan gynnwys unrhyw alergeddau. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau Gwobr Byrbrydau Iach Safon Aur. Gwelsom fod y plant yn cael dŵr i'w yfed yn ystod prydau bwyd, ac mae'r plant yn dod â'u pecynnau bwyd eu hunain.

Mae mesurau priodol ar waith gan y gwarchodwr plant i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi ymddygiad cymdeithasol y plant yn dda ac mae ei pholisi rheoli ymddygiad yn amlinellu'r strategaethau y mae'n eu defnyddio er mwyn cefnogi datblygiad plant yn y maes hwn. Mae'n pennu cyfyngiadau realistig ar gyfer oedran a cham ddatblygiad y plant, ac mae'n gwobrwyo ac annog ymddygiad da er mwyn annog hunanhyder y plant. Ni welsom unrhyw ymddygiad lle roedd angen i'r gwarchodwr plant ymyrryd a gwelsom, fel ymarferydd, ei bod yn trin y plant â pharch ac yn siarad yn garedig ac yn dyner iddynt bob amser.

Mae'r plant yn cael budd o warchodwr plant sy'n cefnogi eu hymddygiad cymdeithasol yn effeithiol.

2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r gwarchodwr plant yn gefnogol o ddatblygiad y plant ac mae'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a dysgu iddynt. Clywsom hi'n canmol y plant yn aml am eu hymdrechion ac yn cydnabod eu cyflawniadau. Er enghraifft, gwnaeth ddefnyddio ymadroddion megis *"that's very helpful,"* a *"well done"* sawl gwaith er mwyn cydnabod ymdrechion y plant. Defnyddiwyd cwestiynau megis *"what is this?"* a *"what colour is this?"* er mwyn gwella geirfa a dealltwriaeth y plant. Dangosodd ddealltwriaeth o anghenion unigol y plant ac roedd tystiolaeth o rywfaint o waith cynllunio, arsylwadau ac asesiadau o blant er mwyn cynllunio ar gyfer eu datblygiad

a'u camau nesaf. Gwnaethom argymell y dylai cofnodion arsylwi'r plant gael eu dyddio er mwyn dangos pryd y cawsant eu cwblhau. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod y plant yn ymweld â pharciau, traethau a chanolfannau chwarae meddal/addysgol lleol er mwyn ehangu profiadau'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi anghenion chwarae a dysgu unigol y plant.

3. Yr Amgylchedd

Crynodeb

Mae'r gwaith o warchod y plant yn digwydd ar lawr gwaelod y cartref, ac mae gan y plant fynediad i ardd gaeedig yn y cefn er mwyn chwarae yn yr awyr agored. Mae'r cartref yn groesawgar ac yn cynnwys digon o adnoddau, gyda chyfarpar a dodrefn er mwyn galluogi plant i chwarae, dysgu ac ymlacio. Gofelir am y plant mewn amgylchedd glân, ysgogol a diogel.

Ein canfyddiadau

3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i'r plant yn ei gofal. Roedd y drws ffrynt wedi'i gau bob amser, a chafodd unrhyw ymwelwyr eu cofnodi. Mae blanced tân a phecyn cymorth cyntaf yn y gegin ac mae'r gwarchodwr plant wedi'i chofrestru â'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel darparwr bwyd. Roedd ymarferion tân yn cael eu cwblhau a'u cofnodi'n rheolaidd. Roedd asesiadau risg ar waith ar gyfer ardaloedd yn y cartref; fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylid asesu risg teithiau hefyd.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod systemau priodol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y plant.

3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i'r plant yn ei gofal. Mae'r gwaith o warchod y plant yn digwydd ar lawr gwaelod y cartref. Mae digon o le yn yr ystafelloedd ar gyfer gweithgareddau chwarae a dysgu. Mae'r cartref yn gyfforddus ac mae digon o olau naturiol da yno. Mae'r ardaloedd chwarae yn drefnus iawn fel y gallai'r plant teimlo'n gyfforddus i archwilio ac ymgysylltu â'r gweithgareddau a'r adnoddau sydd ar gael. Roedd y rhan fwyaf o'r adnoddau wedi'u storio ar lefel isel er mwyn i'r plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Gwnaethom nodi fod y plant yn ymwybodol o'r hyn a oedd ar gael iddynt ac fe'u gwelsom yn mynd i nôl teganau yn annibynnol. Roedd y toiled wedi'i gynnal yn dda, ac roedd y pethau ymolchi yn cael eu cadw y tu hwnt i gyrraedd y plant. Caiff y lolfa ei defnyddio i gysgu ac ar gyfer amseroedd tawel.

Mae'r cartref yn darparu gofod addas i weithgareddau chwarae a dysgu'r plant.

3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Caiff y plant ddewis o adnoddau a chyfarpar chwarae a dysgu o ansawdd da, sy'n addas o ran eu datblygiad. Gwelsom fod cadeiriau uchel addas ar gyfer plant bach wrth y bwrdd bwyd. Gwelsom ddeunyddiau celf a chrefft; amrywiaeth dda o gemau bwrdd, posau, llyfrau, eitemau byd bach a chwarae rôl. Y tu allan, gwelsom fod gan y plant fynediad i dŷ bach twt, peli, teganau ag olwynion a si-so.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ystod amrywiol o adnoddau a chyfarpar ar gael er mwyn ehangu profiadau a datblygiad y plant.

4. Arwain a Rheoli

Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg ei gwasanaeth yn effeithiol yn unol â'r Rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r partneriaethau â'r rhieni a'r gymuned leol wedi'u sefydlu'n dda.

Ein canfyddiadau

4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae arweinyddiaeth y gwasanaeth yn dda. Mae Datganiad o Ddiben amlwg sy'n rhoi gwybodaeth i rieni er mwyn eu helpu i benderfynu ar ba mor addas yw'r gwasanaeth ar gyfer eu plentyn. Gwnaethom edrych ar sampl o gontractau'r plant a oedd wedi'u cwblhau'n dda, ac mae'r rhieni'n llofnodi slipiau caniatâd ychwanegol ar gyfer chwarae yn yr awyr agored, diogelwch rhag yr haul a theithio mewn car. Caiff polisïau a gweithdrefnau priodol eu cynnal. Fodd bynnag, nad oeddent yn ddyddiedig i ddangos pryd y cawsant eu hadolygu ddiwethaf. Fel gwasanaeth hollol ddwyieithog, mae'r gwarchodwr plant yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' o ran yr iaith Gymraeg.

Mae'r gwarchodwr plant gweithredu ei gwasanaeth yn effeithiol.

4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae systemau ar waith i fonitro a gwerthuso ymarfer y gwarchodwr plant er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion y plant. Roedd AGC wedi derbyn Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) ac adroddiad Ansawdd Gofal fel rhan o'i adolygiad blynyddol o'r gwasanaeth. Mae polisi cwyno ar waith os bydd rhieni am godi mater mewn perthynas â'r gwasanaeth. Fodd bynnag, dywedodd y gwarchodwr plant wrthym nid yw wedi cael unrhyw gwynion.

Mae'r gwarchodwr plant yn cydnabod ei chyfrifoldeb o ran adolygu a chynllunio ar gyfer datblygu ei gwasanaeth.

4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn dda. Mae'n aelod o sefydliad ymbarél sy'n rhoi cymorth i'r gwarchodwr plant pe bai ei angen arni. Nid yw'r gwarchodwr plant yn cyflogi cymhorthydd. Mae pob aelod o'r cartref sydd dros 16 oed wedi bod yn destun gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), ac mae gan y gwarchodwr plant gyswllt wrth gefn os bydd argyfwng. Mae'r gwarchodwr plant yn effeithiol wrth reoli ei hamser ei hun ac wrth flaenoriaethu gweithgareddau mewn ffordd ymatebol er mwyn sicrhau y caiff anghenion y plant eu diwallu mewn modd amserol bob amser. Nodwyd gennym fod y gwarchodwr plant yn drefnus a gwelsom fod hyn yn golygu y gallai weithredu mewn modd digynnwrf wrth ofalu am y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei hamser a'i hadnoddau yn effeithiol.

4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cysylltiadau da â rhieni ac mae'n sicrhau bod ganddynt y wybodaeth berthnasol am ei gwasanaeth a threfn arferol eu plentyn. Gwnaethom edrych ar sampl o ddyddiaduron dyddiol a gwblhawyd gan y gwarchodwr plant sy'n rhoi gwybodaeth i rieni am ddiwrnod eu plentyn. Roedd holiaduron adborth rhieni AGC a gawsom yn nodi bod y rhieni yn hapus gyda'r gofal mae eu plant yn ei gael gan y gwarchodwr plant. Mae'r gwarchodwr plant yn mynd â'r plant allan i'r gymuned leol yn rheolaidd.

Roedd gan y gwarchodwr plant bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni a'r gymuned sy'n sicrhau'r manteision gorau i'r plant.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom drafod yr argymhellion arfer da canlynol gyda'r gwarchodwr plant;

- Dyddio polisïau a gweithdrefnau er mwyn dangos pryd y cawsant eu hadolygu ddiwethaf;
- dyddio tystiolaeth yng nghofnodion datblygu plant;
- creu asesiad risg ar gyfer teithiau.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau;

- Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth, yn ddirybudd;
- gwnaethom gynnal gwiriad gweledol o'r ardaloedd a ddefnyddiwyd ar gyfer gofalu am y plant;
- gwnaethom arsylwi arferion gofal;
- gwnaethom ystyried y wybodaeth a oedd ar gael i AGC, gan gynnwys Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth (SASS);
- gwnaethom ystyried yr adborth a roddwyd mewn tri holiadur adborth rhieni AGC
- gwnaethom edrych ar amrywiaeth o ddogfennaeth. Gwnaethom ganolbwyntio ar gontractau plant, polisi diogelwch a datganiad o ddiben.

.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	**Gwarchodwr Plant**
Person Cofrestredig	**Eleri Ann Cooper**
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	**10**
Ystod oedran y plant	**0 i 12 oed**
Oriau agor	**08:00am i 18:00pm o ddydd Llun i ddydd Iau**
Iaith weithredol y gwasanaeth	**Cymraeg**
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	**8 Ionawr 2015**
Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu	**29 Awst 2018**
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	**Nac ydy**
A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?	**Nac ydy**
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	**Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.**
Gwybodaeth Ychwanegol: Dim	